**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 9 Hydref, 2007 yn Siambr y Cyngor, Swyddfa Rhanbarth, Abermaw**

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr W. M. Meredith, Robert J. Hughes a Trefor Roberts (Cyngor Gwynedd), Y Cyng. R. Aeron Williams (Cyngor Tref Abermaw), Y Cyng. Stuart Eves (Cyngor Cymuned Arthog), Mr K. J. Robert (Cymdeithas y Bad Achub), Mrs. Wendy Ponsford (Cymdeithas Defnyddwyr Harbwr a Moryd Abermaw)

Sylwedyddion: Dr. J. Jones Morris (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog), Cynghorydd D. Richardson (Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi).

Swyddogion

| | | |
|---|---|---|
| Mr. Barry Davies | - | Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |
| Mr.Mark Williams | - | Cymhorthydd Harbwr |
| Mr. Elwyn Jones | - | Ysgrifennydd Ardal Meirionnydd |
| Mrs. Mererid Watt | - | Cyfieithydd |

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd M. L. Vaughan (Cyngor Gwynedd), Mr. Glyn Jones (Harbwr Feistr), Mr. Huw Davies (Peiriannydd Grŵp).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Cynghorydd Trevor Roberts yn Gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol am y flwyddyn 2007/08.**

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ethol y Mr. K. J. Probert yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Ymgynghorol am y flwyddyn 2007/08.**

3. **COFNODION**

**Cyflwynwyd:** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw gynhaliwyd ar y 27 Chwefror, 2007.

**Penderfynwyd: Derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir.**

4. **ADRODDIAD Y SWYDDOG MORWROL**

**Cyflwynwyd:** Adroddiad y Swyddog Morwrol, Mr. Barry Davies ar weithgareddau harbwr Abermaw gyda chyfeiriad arbennig at y canlynol:-

(i) Morwriaeth
(ii) Datblygiadau Harbwr
(iii) Gwasanaeth Ysgraff
(iv) Digwyddiadau
(v) Ystadegau Harbwr

(vi) Canlyniad Barn Cwsmer
(vii) Cyllidebau
(viii) Strwythur Staffio Morwrol.

**Adroddwyd:** (a) Gan y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

(i) Yng nghyswllt **datblygiadau harbwr** y byddai'n parhau a'i ymdrechion dros fisoedd y gaeaf i sicrhau amcan bris pontŵn ail-law fyddai'n cael ei glymu a rhaffau i'r cei. Adroddodd hefyd ei fod yn ymwybodol o bryderon am gyflwr y brif lithrfa ac am honiad damwain ddiweddar arni. Canlyniad archwiliad o'i chyflwr oedd ei bod yn parhau yn addas i'w phwrpas ond fe fyddai oddeutu £500.00 yn cael ei wario ar fan welliannau ar y llithrfa yn y dyfodol agos. Cyfeiriodd hefyd at y gwaith carthu wnaed yn yr harbwr a phryderon amlygwyd bod silff o dywod ger wal yr harbwr yn peri problemau i gychod angori ynddi. Ni allai ragweld os byddai carthu cyffelyb yn digwydd i'r dyfodol ac addawodd gyfleu'r pryder ynghyd a'r dymuniad i'r carthu barhau yn y dyfodol i'r Peiriannydd Grŵp.

(ii) Yng nghyswllt **y gwasanaeth ysgraff** ei fod yn ymwybodol o bryder lleol ynglŷn â'r nifer o gychod oedd wedi eu trwyddedu i'r pwrpas ac awgrymodd mai buddiol fyddai iddo gyflwyno adroddiad ar y mater i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol gyda golwg ar lunio polisi ynglŷn â hyn.

(iii) Yng nghyswllt **digwyddiadau** y byddai'n ceisio sicrhau yn y dyfodol bod yr uned drwyddedu'n ymwybodol o wrthwynebiad yr Uned Forwrol i ddigwyddiadau ar y cei gael trwydded bar alcohol oni bai bod y cais wedi ei drafod a wedi ei gytuno gan yr Uned Forwrol a fydd hefyd wedi ymgynghori gyda'r Aelod Lleol a Cyngor Tref Abermaw.

(iv) Yng nghyswllt y **canlyniad barn cwsmer** bod y canlyniadau yn gyffredinol dda ac y gobeithir gweithredu ar yr elfennau pwysicaf ddaeth i'r amlwg ynddi.

(v) Yng nghyswllt y **gyllideb** bod gorwariant o **£6,244.00** wedi digwydd ar harbwr Abermaw yn 2006/07. Rhagwelid y byddai cyfanswm incwm yr harbwr yn sylweddol fyr o'r targed am y flwyddyn gyfredol ac awgrymodd y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig mai priodol fyddai iddo anfon cyllideb ddiwygiedig yn uniongyrchol at bob Aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol er eu gwybodaeth.

(vi) Ar ddau fater nad oedd cyfeiriad atynt yn ei adroddiad ysgrifenedig. Yn gyntaf, mynegodd ei fod wedi gohebu gyda Dwr Cymru i'w hannog i ymdrin â'r bibell carthffosiaeth a'r cymhorthydd mordwyo gyferbyn a chanolfan Gwylwyr y Glannau ac yn wyneb y ffaith na ddigwyddodd cynnydd byddai'n cysylltu eto gyda'r cwmni. Yn ail, crybwyllodd bod cyflwyniadau perthnasol wedi eu gwneud i'r Adran Gynllunio a Thrafnidiaeth parthed y posibilrwydd o ildio canran o'r cyllid am barcio ar bromenâd Abermaw i ddefnydd y gwasanaeth mewnol. Yn naturiol, ni dderbyniwyd ymateb ffafriol ond bwriedid parhau a'r drafodaeth yn y dyfodol.

(b) gan Aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ei bryder am gost uchel sicrhau Gorchymyn Cau Stryd ar gyfer digwyddiadau ar y Promenâd oedd yn aml yn cael eu trefnu ar gyfer achosion haeddiannol o fewn y gymuned. Teimlai y gallai'r costau uchel filwriaethu yn erbyn parhad digwyddiadau o'r fath ac y dylid gwneud cyflwyniadau i'r Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd ar y mater.

**Penderfynwyd:- (A) Derbyn a nodi cynnwys adroddiad y Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig.**

**(B) Gofyn i'r Pen Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig:-**

**(i) i ddyfalbarhau a'i ymdrechion i sicrhau amcan bris pontŵn ar gyfer ei ddefnyddiol yn yr harbwr**

**(ii) i gyfleu dymuniad y Pwyllgor Ymgynghorol i'r Peiriannydd Grŵp am barhad y gwaith carthu yn yr harbwr ac am i sylw priodol gael ei roi i'r diffyg cysylltiedig a'r silff dywod ger wal yr harbwr mewn unrhyw waith pellach yn y dyfodol**

**(iii) i gyflwyno adroddiad pellach ar y cychod ysgraff i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Ymgynghorol.**

**(C) Gofyn i Ysgrifennydd Ardal Meirionnydd gyfleu i'r Pennaeth Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd bryder y Pwyllgor Ymgynghorol am gost sicrhau Gorchymyn Cau Stryd ar gyfer digwyddiadau ar y Promenâd.**

5. <u>**MATERION I'W HYSTYRIED AR GAIS AELODAU O'R PWYLLGOR YMGYNGHOROL**</u>

Ystyriwyd y materion canlynol na chyfeiriwyd atynt yn adroddiad y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig ac yn ystod trafodaethau blaenorol yn y cyfarfod hwn gyda ymateb y swyddog iddynt:-

(1) Cyflenwad i Olchi Traed angen ei adfer – roedd y gwaith hwn wedi ei gwblhau.

(2) Arwydd ar y stepiau fferi i atal pysgota oddi ar yr harbwr – byddai'n gofyn i staff yr harbwr gadw'r sefyllfa dan adolygiad.

(3) Gwaith bloc ar yr harbwr mewn cyflwr gwael – byddai'n trafod y broblem gyda'r Peiriannydd Grŵp.

(4) Twll ar y Safle Disel yn gwaethygu ac ysgolion ar yr harbwr angen eu diogelu - byddai'r gwaith hwn yn cael ei gyflawni o fewn rhaglen waith staff yr harbwr rhwng 'nawr a'r Nadolig.

(5) Holl feinciau i'w rhoi yn ôl ar yr harbwr erbyn yr haf – byddai cais i hyn ddigwydd yn cael ei drosglwyddo i'r Peiriannydd Grŵp Bwrdeistrefol.

(6) Toiledau angen sylw brys - cyflwyno'r sylwadau hyn i sylw'r Peiriannydd Grŵp Bwrdeistrefol.

(7) Parcio ceir ac ôl-gerbydau ar y cei - esboniwyd y disgwyliadau o fewn a thu allan y tymor yn y cyswllt hwn.

**Penderfynwyd (a) Derbyn a nodi'r sylwadau wnaed ynghyd ag ymateb y Swyddog Morwrol a Pharciau Gweledig iddynt.**

**(b) Gofyn i Ysgrifennydd Ardal Meirionnydd gyfleu i'r Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol farn y Pwyllgor Ymgynghorol y dylid ail adeiladu unrhyw doiledau y gall fod yn rhaid eu dymchwel o fewn ardal yr harbwr oherwydd eu cyflwr presennol er parhau gyda'r un lefel o ddarpariaeth ag sydd yn bodoli ar hyn o bryd.**

6. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd y cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ar ddydd Mawrth, 26 Chwefror, 2008.

**Penderfynwyd Derbyn a nodi'r uchod.**

Cadeirydd